Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

20 Mawrth 2024

**Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad**

Annwyl Huw,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Mawrth yn tynnu ein sylw at yr argymhelliad yn eich adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Busnes:

*Argymhelliad 3. Efallai y bydd y Pwyllgor Busnes am adolygu Rheol Sefydlog 29.1 fel rhan o'i waith parhaus o ran y broses cydsyniad deddfwriaethol."*

Gwnaethom drafod yr argymhelliad yn ein cyfarfod ar 19 Mawrth ac rwy'n ysgrifennu i gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes yn hapus i dderbyn yr argymhelliad ac i gadarnhau y bydd Rheol Sefydlog 29.1 yn cael ei drafod fel rhan o waith a drefnwyd y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Cofion cynnes

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.